OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1826 (Cy.198)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011

*Gwnaed - - - - 21 Gorffennaf 2011*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 25 Gorffennaf 2011*
*Yn dod i rym - - 1 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr UE. Maent yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno(**3**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at yr offerynnau UE canlynol fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd—

(a) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer marchnadoedd amaethyddol ac yn ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig (**4**), a

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1249/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar roi ar waith raddfeydd y Gymuned ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid a hysbysu eu prisiau(**5**).

(**1**) Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010, O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).
(**3**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006
(**4**) OJ Rhif L 299, 16.11.2007, t.1, y gwnaed diwygiadau iddo, nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) OJ Rhif L 337, 16.12.2008, t.3.